Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**20 Hydref 2022**
Teitl:	**Recriwtio Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg**
Pwrpas yr Adroddiad:	**Sicrhau y gwneir penodiadau priodol i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet: **Aelod Cabinet:**	**Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Diogelu'r Cyhoedd**

Y CEFNDIR:
Mae'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cynnwys naw aelod:
• 5 X aelod annibynnol a,
• 4 Cynghorydd (2 x Cynghorydd Sir, a 2 x Cynghorydd Tref/Cymuned).

Penodwyd y Cadeirydd presennol, Mrs Caroline White, yn y lle cyntaf ar 30/7/2013 ac fe'i hailbenodwyd ar 30/7/2019. Daw ei thymor yn y swydd i ben ar 29/7/2023. Nid yw Mrs Caroline White yn gymwys bellach i gael ei hailbenodi.

Mae'n ofynnol yn awr, felly, i recriwtio aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg er mwyn cynnal cyfansoddiad y Pwyllgor fel y'i nodir yn y Cyfansoddiad ac yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

Nodir y weithdrefn a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol yn Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 (OS 2001/2283). Mae hyn yn cynnwys:

- Pan fydd lle gwag yn codi ar gyfer swydd fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau, rhaid i'r awdurdod perthnasol dan sylw gyhoeddi hysbyseb mewn dim llai na dau bapur newydd (nad ydynt yn cael eu cyhoeddi gan yr awdurdod perthnasol hwnnw) sy'n cylchredeg yn ei ardal.
- Cyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penodi.
- Rhaid sefydlu Panel Dewis a fydd yn cynnwys dim mwy na phum aelod panel, gan gynnwys aelod panel lleyg ac aelod cyngor cymuned. Bydd y panel hwn yn ystyried pob cais, yn cymhwyso'r meini prawf ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor. Caiff penodiadau eu gwneud ar ôl ystyried argymhellion y panel.

Y CYNNIG
1. Y bydd y disgrifiad rôl, manylion personol a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol yn union fel y'u nodir yn **Atodiad 1.**

2. Y bydd aelodau'r Panel Dewis fel a ganlyn (x5):

- Cadeirydd y Cyngor (Is-gadeirydd yn ei absenoldeb);
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg (neu aelodau annibynnol eraill a enwebir gan y Swyddog Monitro yn ôl y galw);
- Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned a enwebir gan Un Llais Cymru;
- Aelod Panel Annibynnol/Lleyg (Cadeirydd y panel dewis) (a enwebir gan y Swyddog Monitro);
  Ni all yr Aelod Panel Annibynnol/Lleyg fod yn aelod, aelod cyfetholedig neu swyddog y Cyngor Sir, unrhyw gyngor arall neu Awdurdod Parc Cenedlaethol, neu Gyngor Tref/Cymuned, nac wedi bod yn aelod o'r un ohonynt chwaith. Cynigir bod yr un aelod lleyg a gadeiriodd y Panel Dewis o'r blaen yn 2011, 2013, 2017 a 2021 yn cael ei enwebu (ar yr amod ei fod ar gael).

Y SEFYLLFA BRESENNOL:
Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar gynllunio ar gyfer olyniaeth - aelod lleyg yn y Pwyllgor Safonau a Moeseg ar 25ain Mai 2022. Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo:
(i) y disgrifiad rôl, manylion personol a'r meini prawf (fel y'u nodir yn yr Atodiad)
(ii) Aelodaeth y Panel Dewis fel a ganlyn:
- Cadeirydd y Cyngor (Is-gadeirydd yn ei absenoldeb)
- Aelod Panel Annibynnol/Lleyg (a enwebir gan y Swyddog Monitro)
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg (neu aelodau annibynnol eraill a enwebir gan y Swyddog Monitro yn ôl y galw)
- Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned a enwebir gan Un Llais Cymru; a

(iii) newid teitl y disgrifiad swydd i disgrifiad rôl yn yr Atodiad

	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam		Amherthnasol - nid oes yma newid polisi neu wasanaeth.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Crynodeb:**		
	Hirdymor:	Amherthnasol	
	Cydweithio:	Amherthnasol	
	Cynnwys:	Amherthnasol	
	Atal:	Amherthnasol	
	Integreiddio:	Amherthnasol	

Argymhelliad/Argymhellion: **Bod y Cyngor yn penderfynu cymeradwyo:**

1) y disgrifiad rôl, manylion personol a'r meini prawf (fel y'u nodir yn **Atodiad 1**)

2) Aelodaeth y Panel Dewis fel a ganlyn:
- Cadeirydd y Cyngor (Is-gadeirydd yn ei absenoldeb)
- Aelod Panel Annibynnol/Lleyg (a enwebir gan y Swyddog Monitro)
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg (neu aelodau

annibynnol eraill a enwebir gan y Swyddog Monitro yn ôl y galw)
- Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned a enwebir gan Un Llais Cymru.

Rheswm dros y penderfyniad:	**Mae'r argymhellion yn angenrheidiol er mwyn gwneud yn siŵr bod y penodiadau priodol yn eu lle, yn unol â'r Cyfansoddiad.**
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	Cyfansoddiad y Cyngor
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei Flaenoriaethau Corfforaethol; • Hybu'r Economi • Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl • Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	Heb y penderfyniad hwn ni fydd y Pwyllgor yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau Eiddo/Asedau:	Dim
Risg/Risgiau:	Dim
Pwerau Statudol:	Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 (OS 2001/2283)
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad A - Disgrifiad rôl, manylion personol a meini prawf
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu
Swyddog Adrodd:	Lisa Evans Swyddog Safonau a Chraffu
Dyddiad:	6/7/22